

QE 26

Ymchwiliad i Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Inquiry into the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Bill

Ymateb gan Goleg Podiatreg

Response from College of Podiatry



The COLLEGE COLEG PODIATREG
of PODIATRY

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Cyflwyniad

Hoffai'r Coleg Podiatreg ddiolch i'r Pwyllgor am ddarparu cyfle i ni ymateb i gyhoeddi'r Bil drafft.

Yn gyffredinol, mae'r Coleg Podiatreg yn gefnogol iawn i nodau ac egwyddorion eang y ddeddfwriaeth. Mae'r Coleg Podiatreg o'r farn y bydd unrhyw fesurau a weithredir i wella ansawdd ac ymgysylltu â chleifion yn cael eu croesawu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff, ac y bydd hyn yn gwella gofal cleifion.

Mae gan y Coleg Podiatreg farn ar agweddau penodol ar y Bil, sydd wedi'u casglu o dan y penawdau isod.

Gosod ystyriaethau ansawdd wrth galon yr holl GIG yng Nghymru

Mae'r Coleg Podiatreg o'r farn ei fod yn sylfaenol bod ystyriaethau ansawdd wrth gallon yr hyn mae'r GIG yn ei wneud yng Nghymru. Credwn fod angen deddfwriaeth ar gyfer hyn oherwydd, yn anffodus, profiad Podiatryddion y GIG dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw nad yw penderfyniadau, yn arbennig o ran toriadau ar y gyllideb, wedi cael eu gwneud ag ystyriaethau ansawdd mewn golwg. Ar draws holl ardaloedd Bwrdd, mae gwasanaethau podiatreg sy'n canolbwyntio ar atal wedi profi toriadau, sydd, ym marn podiatryddion, wedi'u gwneud ar draul ansawdd i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Prif ffocws gwasanaethau Podiatreg yw atal ar draws nifer o feysydd. I gymryd un enghraifft, gall podiatryddion ddarparu asesiad, diagnosis a thriniaeth yn y gymuned ar gyfer Clefyd Rhydweliol Ymylol. Lle mae hyn yn digwydd, mae pobl yn derbyn cynlluniau triniaeth wedi'u teilwra'n gynharach, ac mewn gwerthusiad o un model, dim ond 6% o bobl a

atgyfeiriwyd at arbenigwyr fasgwlaidd mewn gofal eilaidd i'w hasesu.¹ Mae hyn yn cynyddu capasiti mewn gofal eilaidd, yn cyflymu mynediad at lawdriniaeth fasgwlaidd i gleifion sydd angen hyn fwyaf ac yn cefnogi adsefydlu fasgwlaidd yn allweddol, gan atal symptomau rhag dod yn fwy difrifol ac angen am ymyrraeth eilaidd. Mae hyn yn cadw pobl allan o'r ysbyty ac yn caniatáu iddynt gyrchu'r gofal sydd arnynt ei angen yn nes at eu cartref. Mae llawer o enghreifftiau eraill o hyn, fel gwasanaethau podiatreg dan arweiniad y maes cyhyrsgerberbydol sy'n helpu i gadw pobl yn egniol gan atal gordewdra, salwch a chlefydau, a gofal podiatreg i gleifion diabetes sy'n atal wlseriadau traed diabetig ac yn y pen draw trychiadau coesau is â'r risg gysylltiedig o hyn.

Â buddsoddiad cyffredinol mewn gwasanaethau ataliol, bydd podiatryddion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn gallu gwneud cyfraniad llawn tuag at strategaeth iechyd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach'. Mae'r Coleg Podiatreg yn croesawu'r ddealltwriaeth gan Lywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y memorandum esboniadol, mai'r risgiau o beidio â deddfu yn y maes hwn fydd bod hyn yn rhwystro'r agenda ataliol. Gobaith y Coleg Podiatreg yw y bydd gweithredu'r Bil yn sicrhau y bydd ail-gydbwyso ar draws Byrddau GIG Cymru i ffwrdd o dorri ar wasanaethau ataliol, (sydd yn rhy aml o lawer wedi cael ei ystyried yn darged hawdd sydd wedi arwain at wasanaeth llai effeithiol ac yn y pen draw llai diogel i gleifion ag ystod o anghenion gofal iechyd), tuag at wasanaethau ataliol effeithiol.

Cryfhau llais dinasyddion ar draws y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

Mae'r Coleg Podiatreg yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Bil i gryfhau llais dinasyddion. Rydym o'r farn, os bydd llais y dinesydd yn cael ei gryfhau, y bydd llai o doriadau ar wasanaethau sy'n hanfodol i gefnogi gofal cleifion ac y bydd GIG Cymru yn darparu gwell gwasanaeth i gleifion.


Fel ymarferwyr ymreolaethol, mae podiatryddion yn ymarfer yn annibynnol ar gyfarwyddyd a goruchwyliaeth feddygol yn y GIG. Mae'n hanfodol bod pobl yn gallu cyrchu'r gweithiwr proffesiynol iawn ar yr adeg iawn i alluogi diagnosis, triniaeth ac atgyfeirio ymlaen mewn modd amserol os oes angen. Mae gan podiatryddion y gallu i weithio fel ymarferwyr man cyswllt cyntaf ar gyfer ystod o gymhlethdodau traed ac

¹ Brysbennu cymunedol ar gyfer pryderon fasgwlaidd aelodau isaf, Ymddiriedolaeth Sefydliad Brenhinol Salford (Hydref 2016)

aelodau isaf, ac mae'r Coleg Podiatreg o'r farn nad yw podiatryddion ledled Cymru yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial yn y maes hwn.

Fe wyddom o arolygon cyhoeddus fod defnyddwyr gwasanaeth am weld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cywir ar gyfer eu hanghenion, ac mae hyn yn golygu y dylid ehangu rolau man cyswllt cyntaf yn llawn i dimau podiatreg. Fe ganfu arolwg diweddar o dros 2500 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn yr Alban mai podiatryddion yw'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yr hoffai'r cyhoedd eu gweld fwyaf mewn gofal sylfaenol heb orfod mynd trwy feddyg teulu.²

TABLE:



Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban, *Sut Olwg Ddylai fod ar Ofal Sylfaenol ar gyfer y Genhedlaeth Nesaf?* Cyhoeddwyd 3 Gorffennaf 2019

Mae gan podiatryddion rôl fawr hefyd wrth ddarparu gofal iechyd darbodus trwy fodolau amrywiol megis y llwybr rhoi traed yn gyntaf sy'n galw am ysgogi cleifion a'u gallu i hunanreoli wrth ddarparu eu gofal eu hunain. Mae hyn yn cefnogi'r nodau a'r uchelgeisiau sydd wedi'u cynnwys yng 'Nghymru Iachach' Llywodraeth Cymru.

² <https://sp-bpr-en-prod-cdnep.azureedge.net/published/HS/2019/7/3/What-should-primary-care-look-like-for-the-next-generation-/HSS052019R9.pdf>, tud. 14-15

Gosod dyletswydd didwyллеdd ar sefydliadau'r GIG

Mae'r Coleg Podiatreg yn cefnogi'n llawn y cynigion i gyflwyno dyletswydd diwyллеdd o fewn GIG Cymru. Er bod hyn yn rhywbeth a fydd yn dod i rym ar lefel Bwrdd yn hytrach na lefel gwasanaeth yng Nghymru, ein barn ni yw y dylid integreiddio tryloywder a didwyллеdd yn llawn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng Cymru a gweddill y DU yn y maes hwn yn her sylweddol ar hyn o bryd, yn arbennig oherwydd, am resymau daearyddol, mae rhai cleifion yn profi triniaeth GIG ar ddwy ochr y ffin.

Bydd diffiniad y gweithgor o'r hyn sy'n diffinio 'niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy na'r lleiaf' yn hollbwysig wrth lunio'r ddyletswydd hon a byddai'r Coleg Podiatreg yn disgwyl, ar ôl i hyn gael ei ddiffinio, y byddai hyn yn cael ei gyflwyno i randdeiliaid ar gyfer ymgynghoriad.

Cryfhau'r trefniant llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae'r Coleg Podiatreg o'r farn bod y cynigion i gysoni'r berthynas sefydliadol rhwng Byrddau'r GIG, Ymddiriedolaethau a Llywodraeth Cymru yn synhwyrol ac nid yw'n rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i ddeddfu yn y maes hwn.

Cysylltu

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyflwyniad hwn cysylltwch â: Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Y Coleg Podiatreg